Anafiadau Nad Ydyn Nhw'n Ddamweiniol

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

1 Beth yw anaf nad yw'n ddamweiniol?

Gall anaf nad yw'n ddamweiniol olygu unrhyw gam-drin sy'n cael ei achosi i blentyn gan ofalwr nad yw'n gyson â'r cyfrif o'r digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys anafiadau sy'n deillio o weithredoedd bwriadol yn erbyn plentyn neu fethiant i atal anaf.

Mae data'n awgrymu y bu cynnydd mewn anafiadau nad ydyn nhw'n ddamweiniol yn ystod pandemig y coronafeirws, pan oedd teuluoedd dan bwysau ac yn wynebu tensiynau a phryder cynyddol yn y cartref.

2 Cleisiau/Anafiadau

Mae rhai patrymau o gleisiau a all awgrymu bod cam-drin corfforol wedi digwydd. Mae cleisiau camdriniol yn aml yn digwydd ar rannau meddal o'r corff, fel yr abdomen, y cefn a'r pen-ôl. Y pen yw'r man mwyaf cyffredin o gleisiau mewn achosion o gam-drin plant o bell ffordd. Mae mannau cyffredin eraill yn cynnwys y glust a'r gwddf.

Mae cleisiau sydd â mân-waedu (smotiau o waed o dan y croen) o'u hamgylch i'w cael yn fwy aml yn achos plant sydd wedi cael eu cam-drin na'r rhai sydd wedi cael eu hanafu yn ddamweiniol. Mae cleisiau yn achos babanod a phlant nad ydyn nhw'n symud yn annibynnol yn brin a rhaid i hyn bob amser arwain at atgyfeiriad at y gwasanaethau i blant ar unwaith**.** Cleisiau ar blant: Taflen Core Info | NSPCC Learning

3 Torri esgyrn

Ar ôl cleisiau, torri esgyrn yw'r ail fath mwyaf cyffredin o anaf nad yw'n ddamweiniol sy'n digwydd yn achos plant. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol gadw llygad am arwyddion o gam-drin pan fyddan nhw'n trin plant sydd wedi torri esgyrn, yn enwedig yn achos babanod neu blant nad ydyn nhw'n symudol.

Ystyried a yw'r esboniad gan y rhieni yn gyson â'r anafiadau.

Ni ddylai toriad, fel unrhyw anaf arall, gael ei ddehongli ar ei ben ei hun. Rhaid ei asesu bob amser yng nghyd-destun hanes meddygol a chymdeithasol y plentyn.

4 Chwilfrydedd proffesiynol

Dro ar ôl tro, mae adolygiadau i farwolaethau plant yn pwysleisio'r angen i ymarferwyr fod yn effro i'r risg o feddwl sefydlog a thuedd ganfyddiadol.

'Gwneud cais am Wiriad Cofrestr Amddiffyn Plant'

Cyfuniad o edrych, gwrando, gofyn cwestiynau uniongyrchol, gwirio'r wybodaeth sy'n dod i law a myfyrio arni. Mae'n golygu peidio â chymryd un ffynhonnell sengl o wybodaeth a'i derbyn fel ffaith.

'Triongli'r holl wybodaeth sydd ar gael'.

5 Pwysigrwydd trafodaeth amlasiantaeth a herio proffesiynol

Mae rhannu gwybodaeth yn gynnar ac ymgysylltu'n weithredol â'r broses amlasiantaethol yn sicrhau dealltwriaeth dda o anghenion a risgiau gyda chynllun gweithredu clir i wella'r canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae trafodaeth amlasiantaeth yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o anafiadau amheus ac yn galluogi ymarferwyr i weithio gyda'i gilydd a chael ymagwedd gyfannol, wybodus wrth edrych ar bob agwedd ar yr achos.

Mae cael gwahanol safbwyntiau proffesiynol o fewn ymarfer amddiffyn plant yn arwydd o bartneriaeth iach sy'n gweithio'n dda. Beth bynnag yw'ch swydd neu'ch statws, byddwch yn barod i gael eich herio ac i herio eraill; mae gweithio gyda'ch gilydd yn effeithiol yn dibynnu ar ymagwedd agored a pherthynas onest rhwng asiantaethau. (Gweler Protocol Aml-asiantaeth ar gyfer datrys Gwahaniaethau rhwng Ymarferwyr - Ionawr 2023 (gwentsafeguarding.org.uk) **'Peidiwch â bod ofn herio!'**

6 Ymarfer effeithiol (1)

- Rhoi gwybod am amheuon neu bryderon i'r Gwasanaethau i Blant (neu Dîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru os yw y tu allan i oriau) **ar unwaith** dros y ffôn os oes posibilrwydd o anaf nad yw'n ddamweiniol. Sicrhau bod enw'r Gweithiwr Cymdeithasol y siaradwyd ag ef/hi, y dyddiad a'r amser wedi'u **cofnodi'n glir yn y cofnodion**, ynghyd â chrynodeb o'r drafodaeth. **Nid oes angen caniatâd rhieni**.
- Llenwi ffurflen Dyletswydd i Adrodd a'i chyflwyno cyn gynted â phosibl gyda'r holl wybodaeth berthnasol, gan roi manylion am y risgiau a'r rhesymeg dros bryderu. **Sicrhau bod manylion unrhyw blant eraill yn y cartref** wedi'u cynnwys yn yr atgyfeiriad gan y gallen nhw fod mewn perygl hefyd.

7 Ymarfer effeithiol (2)

- **Gofyn am gyfarfod strategaeth** i alluogi pob asiantaeth i rannu gwybodaeth mewn perthynas â'r plentyn a'r teulu. **Mae'n rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol fynychu** i sicrhau eu bod nhw'n cymryd rhan lawn wrth wneud penderfyniadau amlasiantaethol.
- Trafod y pryderon o fewn y tîm amlasiantaethol, yn enwedig pan fo gwahaniaeth mewn barn glinigol**. Sicrhau bod pob safbwynt clinigol yn cael ei ystyried yn llawn.**
- **Cadw dogfennaeth glir a chywir o anafiadau**, esboniadau gan y gofalwr a sut y cafodd y penderfyniadau clinigol eu gwneud, gan ystyried dadansoddi'r cryfderau a'r risgiau. **Cofnodi unrhyw drafodaethau ag asiantaethau partner**